**Arbed Dyfodol**

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol**

**Cofnodion 15.05.18**

**Yn bresennol:**

Melissa Horrell, Ymgyrchydd, Stop it Now! Cymru
Claire Short, Rheolwr, Stop it Now! Cymru
Cecile Gwilym, Uwch Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC Cymru
Natalie Brimble, Rheolwr Datblygu, Tros Gynnal Plant
Sarah Andrews, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Caryl Tyler, Ymarferydd Gwasanaethau Plant, NSPCC
Rhiannon Topp, Swyddfa John Griffiths AC
Rebecca Parker, Swyddfa John Griffiths AC
Sam Clutton, Uwch-reolwr Polisi, Llywodraeth Cymru
Gill Jones, Cydgysylltydd Gogledd Cymru, Stop it Now! Cymru
David Hopkins, Cadeirydd, Stop it Now! Cymru
Faith McCready, Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan
Jayne Bryant AC, Cadeirydd
Joyce Watson AC
Jan Pickles, Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
Qays Stetkerych, Siarad Da

**Siaradwr:**

Matt Sedgebeer, Ymgynghorydd Cymru, Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Agorodd Jayne Bryant AC y cyfarfod a chroesawodd y rhai oedd yn bresennol. Rhoddodd ymddiheuriadau gan Cassi Harrison (Cyfarwyddwr y Ganolfan Arbenigedd) am fod ei thrên wedi cael ei ganslo. Yna gwahoddodd Matt Sedgebeer i siarad.

**Cefndir i'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol**

Soniodd Matt am gyd-destun achosion o gam-drin plant yn rhywiol, ac a gafodd gryn sylw yn y wasg, fel achosion Saville a Rochdale. Ysgogodd y rhain gwestiynau yn y DU ynghylch sut y gallwn ganfod a nodi'n well y plant sydd mewn perygl, a'u hamddiffyn. O ganlyniad, sefydlwyd y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. Fe'i hariennir gan y Swyddfa Gartref, a chaiff ei rhedeg o dan arweinid Barnardo's. Mae gwaith y Ganolfan yn canolbwyntio ar bolisi ac ymarfer. Mae'r staff yn gymysgedd o academyddion ac unigolion sy'n arbenigo ym meysydd polisi ac ymarfer. Rhan o rôl Matt yng Nghymru yw cysylltu pobl ar llawr gwlad â'r Ganolfan.

Mae gwaith y Ganolfan yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

**Deall cam-drin plant yn rhywiol**

'Graddfa a natur': mae 15 y cant o ferched a 5 y cant o fechgyn yn profi rhyw fath o gam-drin rhywiol cyn eu bod yn 15 oed. Nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud wrth unrhyw un am y cam-drin y maent yn ei ddioddef. Mae'r rhan fwyaf o ddioddefwyr yn cael eu cam-drin gan rywun y maent yn ei adnabod: mae merched yn fwy tebygol o gael eu cam-drin gal aelodau o'r teulu; ffigurau o awdurdod, fel hyfforddwyr, athrawon ac ati sy'n gyfrifol am gam-drin bechgyn. Dynion yw mwyafrif y troseddwyr. Bylchau: nid ydym yn gwybod a yw nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn cynyddu neu'n gostwng. Yng Nghymru, mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn gostwng ac nid ydym yn gwybod pam. Mae'r Ganolfan yn gwneud rhywfaint o waith archwilio mewn un ALl ynghylch y niferoedd ar y goferstr. Nid oes sylfaen wybodaeth gadarn eto i'r patrymau a chyd-destun y gamdriniaeth, ac nid yw'r data ar y troseddwyr wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae angen inni ddeall y cyd-destun ar-lein yn well hefyd.

Astudiaethau cwmpasu ar droseddwyr sy'n cam-drin plant yn rhywiol: oedolion a phlant, ymyriadau, beth sy'n gweithio

Negeseuon allweddol o ymchwil: cam-drin sefydliadol, cam-drin o fewn y teulu, ymddygiad rhywiol niweidiol, troseddwyr sy'n oedolion.

**Rhoi dealltwriaeth ar waith**

Defnyddio dulliau rheoli risg a rhestrau gwirio: mae'r Ganolfan yn bwydo'i chanfyddiadau i'r adolygiad ar y Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol yng Nghymru. Cynhaliwyd sesiwn ar ddulliau rheoli risg yn eu cynhadledd ar 3 MaiMai. Bydd y casgliadau'n cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru. Darn o waith parhaus gyda phobl ifanc: beth yw ystyr risg? Er mwyn cefnogi ymarferwyr, bydd gwefan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn cael ei defnyddio i gefnogi lansio canllawiau statudol newydd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Cefnogi rhieni: bod yn ddylanwad cefnogol ym mywyd pobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin rhywiol.

**Trawsnewid y dirwedd**

Cronfa werthuso: cyllid a roddwyd i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio. Nododd Jan Pickles, sydd ar Fwrdd y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ac a gymerodd ran yn y broses, mai dim ond un prosiect o Gymru oedd wedi gwneud cais i'r gronfa werthuso. Er ei fod yn brosiect mawr, nid oedd wedi'i werthuso erioed o'r blaen, sy'n codi cwestiynau ynghylch y defnydd o arian cyhoeddus yng Nghymru. Tynnodd sylw at brosiect cadarnhaol iawn yn Brighton sydd yn cael canlyniadau da, gan nad oes unrhyw un o'r bobl ifanc sy'n derbyn y gwasanaeth wedi gorfod cael ei osod mewn llety diogel.

**Edrych tua'r dyfodol**

Prosiect data gweinyddol: bydd y Ganolfan yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch data ar gam-drin plant yn rhywiol.

Astudiaeth ar gyfer Cymru a Lloegr o nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol / y posibilrwydd o gam-drin plant yn rhywiol.

Gwaith ar niferoedd: edrych ar deipoleg troseddwyr a'r llwybrau sy'n arwain at droseddu. Bydd hyn yn helpu i lywio meysydd gwaith eraill. Y bwriad yw symud oddi wrth ganolbwyntio ar yr unigolyn i edrych, yn lle hynny, ar y cyd-destun. Adolygu llenyddiaeth ac ymgynghori. Creu teipoleg ar ddata plismona ac yna ei phrofi ar ffynhonnell ddata ehangach. Dylai hyn roi dealltwriaeth fwy cyfannol o droseddu sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.

Dilynwyd hyn gan drafodaeth am yr angen i gael cydbwysedd rhwng deall a chydweithio â throseddwyr a'r angen hefyd i gefnogi goroeswyr. Soniodd Misty Leigh am yr anawsterau a wynebodd hi wrth geisio cael cymorth fel oedolyn.

Negeseuon allweddol o ymchwil ar blant ac oedolion sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.

Rhoi gwybodaeth ar waith: rhaglenni gwella arferion gan ddefnyddio'r "Model Arweiniol". Bydd y Ganolfan yn gwella sgiliau arweinwyr mewn awdurdodau lleol. Mae Gwent wedi dangos diddordeb, ynghyd ag awdurdodau Dyfnaint a Chaergrawnt. Bydd y Ganolfan yn cysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru i gyfrannu i'w waith hirdymor.

Iechyd: meithrin hyder o ran archwiliad meddygol. Gwella dealltwriaeth. Datblygu dulliau o gyfathrebu â phobl ifanc a rhieni. Mae arolwg wedi cael ei anfon at yr heddlu a gofal cymdeithasol.

Gweithio gyda grwpiau sydd ar y cyrion: mae'r Ganolfan wrthi'n cymryd rhan mewn darn o waith gyda grwpiau pobl dduon, Asiaidda lleiafrifoedd ethnig.

Rhaglen Datblygu Ysgoloriaethau Proffesiynol: hyd at £5,000 tuag at gymhwyster i gefnogi ymarfer. 3 o Gymru.

Trawsnewid y dirwedd: astudiaethau effeithiolrwydd ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Canlyniadau tymor-byr a chanolig.

Datblygiad ac effaith polisi: sut rydym yn mesur effaith ar bolisi? Mae'r Ganolfan yn gweithio ar ddatblygu ffordd o wneud hyn, ac mae'n awyddus i gefnogi datblygu polisi newydd yng Nghymru.

Roedd yn rhaid i Jayne Bryant AC a Joyce Watson AC adael i fynd i ddigwyddiad arall, felly daeth Cecile Gwilym â'r cyfarfod i ben, a diolchodd i Matt am ei gyflwyniad. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp hefyd ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu cynhyrchu cynllun gweithredu cenedlaethol ar gam-drin plant yn rhywiol. Esboniodd Sam Clutton y bydd y gwaith yn cael ei symud ymlaen yn y flwyddyn newydd yn dilyn galwadau'r grŵp i lunio cynllun o'r fath.

Yna, daeth y cyfarfod i ben.